Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Cylchlythyr Arolygiadau ar y Cyd

## Chwefror 2023

## Diolch

Mae peth amser wedi mynd heibio ers i ni lunio cylchlythyr a hoffem ddiolch i chi am eich holl waith caled a'ch dealltwriaeth o'r materion y mae'r sector yn eu hwynebu ers i ni ailddechrau arolygu ym mis Ionawr 2022. Rydym yn parhau i gael adborth cadarnhaol am ein harolygiadau, yn gyffredinol, ac mae hyn oherwydd proffesiynoldeb y rhai sy'n arolygu yn y sector, i raddau helaeth.

## Ailddechrau defnyddio barnau crynodol

Pan ailddechreuodd Estyn ac AGC arolygiadau ar y cyd ym mis Ionawr 2021, ataliom y defnydd o raddau crynodol cyffredinol dros dro ar ôl y pandemig. O 27 Chwefror 2023 (arolygiadau ar ôl hanner tymor mis Chwefror), byddwn yn ailgyflwyno graddau crynodol cyffredinol ar gyfer ein harolygiadau ar y cyd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r un graddfeydd barn â chyn y pandemig:

Bwriedir i'r disgrifiadau canlynol fod yn ganllaw i helpu arolygwyr lunio barnau trwy ystyried cydbwysedd ac arwyddocâd cymharol cryfderau a meysydd i'w gwella.

**Rhagorol** – perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

**Da** – llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol

**Digonol** – cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau

**Gwael** – gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

Er mwyn dod i farn ar themâu arolygu 3, 4, 5 a 6, bydd arolygwyr yn ystyried yr effaith ar les a dysgu plant.

## Cynghorion Campus

### Ynglŷn â'r lleoliad

Rhaid llenwi pob blwch i lanlwytho'r FfF Adrodd i'r gronfa ddata. Dylech roi 'Ddim yn berthnasol' os nad oes unrhyw wybodaeth i'w mewnbynnu.

Rhowch unrhyw beth sy'n bwysig i gyd-destun y lleoliad yn yr adran gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft, mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg lle daw bron pob un o'r plant o gartrefi di-Gymraeg neu leoliadau lle mae cyfran uchel o blant sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

### Rhesymau dros lefel y gweithgarwch dilynol

Mae angen rhoi rhywbeth yn y blwch hwn bob tro. Os nad oes unrhyw weithgarwch dilynol, mae'n ddigonol dweud nad oes unrhyw faterion sylweddol yn peri pryder a bod gan arweinwyr y gallu i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol.

Os ydych wedi nodi bod angen gweithgarwch dilynol ar leoliad, mae'n bwysig esbonio pam rydych wedi gwneud y penderfyniad hwnnw a pham rydych wedi dewis y categori hwnnw o weithgarwch dilynol. Nid yw'r wybodaeth hon yn ymddangos yn yr adroddiad.

## Ystyriaethau eraill - Adroddiad yr ALI

Wrth ysgrifennu am adroddiad yr ALI, rydych chi'n rhoi sylwadau ar ba mor gywir ydyw, yn hytrach na datgan beth mae'n ei gynnwys. Dyma'ch gwerthusiad chi o'r adroddiad.

Mae'n bwysig bod arolygydd Estyn yn nodi'r cryfderau a'r gwendidau yn yr adroddiad i'w trafod â'r awdurdod lleol.

Os yw'r arolygydd Estyn yn arolygydd tîm, dylai roi manylion cryno ar ddiwedd y dystiolaeth ar gyfer thema 6 i'w arolygydd arweiniol eu rhoi yn y FfFA.

## Rhoi enghreifftiau

Mae'n ddefnyddiol rhoi enghreifftiau i roi blas ar waith y lleoliad a gwneud yn adroddiad yn fwy diddorol i ddarllenwyr.

Os byddwch yn dechrau brawddeg ag 'Er enghraifft', dylai'r testun dilynol allu sefyll ar ei ben ei hun fel brawddeg. Os yw 'er enghraifft' yn barhad o frawddeg, nid oes rhaid i'r ymadrodd sy'n dilyn sefyll fel brawddeg ar ei ben ei hun.

**Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut i ddefnyddio 'er enghraifft' yn gywir**

Er enghraifft, mae'r plant yn dewis o amrywiaeth o berlysiau a sbeisiau i'w hychwanegu at eu toes.

Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo'n annibynnol.

Er enghraifft, wrth chwilio am drychfilod, mae'r plant yn siarad am faint maent yn gobeithio dod o hyd iddynt.

Er enghraifft, maent yn sychu'r byrddau cyn gweini bwyd ac yn gwisgo'r offer amddiffynnol priodol, fel menig a ffedogau tafladwy.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trin adnoddau'n briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio platiau tsieni yn yr ardal chwarae rôl.

Mae llawer o blant yn mwynhau gwneud marciau syml yn annibynnol, er enghraifft wrth beintio yn yr awyr agored neu wneud rhestrau.

Mae lleiafrif o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau echddygol manwl yn dda, er enghraifft llenwi poteli â gyddfau cul â dŵr.

# Diogelu

Diolch i bawb am sicrhau ein bod yn cipio'r agwedd bwysig hon ar waith lleoliadau yn effeithiol yn ein hadroddiadau. Amlygoch lawer o faterion diogelu yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf, a'n helpodd i roi gwybod i randdeiliaid am ddiffygion yn y maes hollbwysig hwn. Mae adroddiadau arolygu y tymor hwn yn adlewyrchu newid cadarnhaol o ran

agweddau yn y lleoliadau y gwnaethom eu harolygu ac mae nifer yr argymhellion sy'n ymwneud â diogelu wedi lleihau'n sylweddol.

## Amserlenni

Mae diagram yn y pecyn cymorth ar hyn o bryd, ond roeddem o'r farn bod yr un hwn yn fwy eglur ac yn dweud wrthych bwy i anfon copi atynt yn ystod pob cam.

| | |
|---|---|
| Cyn hysbysu | • Bydd Estyn yn creu'r YARau ac yn eu llenwi â dogfennau arolygu cyn hysbysu |
| 10 diwrnod gwaith cyn yr arolygiad | • Bydd y Cydlynydd Arolygu (CydAr) yn rhoi gwybod i'r lleoliad am yr arolygiad ac yn llenwi FfCC<br>• Bydd y CydAr yn rhoi gwybod i'r arweinydd arweiniol a'r arolygydd tîm bod y lleoliad wedi cael ei hysbysu |
| 6 diwrnod gwaith ar ôl hysbysu | • Bydd y lleoliad yn lanlwytho'r holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt i'r YAR |
| 6 diwrnod gwaith ar ôl hysbysu | • Bydd crynodebau o'r holiaduron yn ymddangos yn yr YAR |
| Cyn yr arolygiad | • Bydd yr arolygydd arweiniol yn cysylltu â'r arolygydd tîm i wneud trefniadau i gwblhau'r dogfennau a'r cynlluniau arolygu<br>• Bydd yr arolygydd arweiniol yn cysylltu â'r lleoliad i drafod trefniadau ar gyfer yr arolygiad |
| Y diwrnod gwaith nesaf ar ôl rhoi adborth | • Bydd yr arolygwyr yn lanlwytho'r holl dystiolaethau i'w Ffurflen Fewnbwn Tîm (FfFT), yn llenwi'r prif werthusiadau ac yn nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio<br>• Bydd yr arolygydd arweiniol yn rhoi gwybod i'r CydAr am y categori ac unrhyw ddiffyg cydymffurfio, os yw'n berthnasol |
| 6 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad | • Bydd yr arolygydd arweiniol yn cysylltu â'r arolygydd tîm ac yn llenwi'r FfFA yn barod i'w golygu ac yn rhoi gwybod i'r golygydd cyntaf a'r CydAr |
| 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad | • Bydd y golygydd cyntaf yn golygu'r FfFA ac yn rhoi gwybod i'r CydAr, yr ail olygydd a'r arolygydd arweiniol |
| 13 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad | • Bydd yr ail olygydd yn gwirio'r FfFA, yn trafod â'r golygydd cyntaf os oes unrhyw ymholiadau ac yn rhoi gwybod i'r arolygydd arweiniol, y golygydd cyntaf a'r CydAr pan fydd yn barod |
| 16 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad | • Bydd yr arolygydd arweiniol yn ymateb i'r golygiadau ac yn rhoi gwybod i'r golygydd cyntaf a'r ail olygydd, yr arolygydd tîm a'r CydAr |
| 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad | • Bydd y CydAr yn trefnu i'r lleoliad brawfddarllen a gwirio cywirdeb ffeithiol |
| 27 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad | • Os oes angen, bydd yr arolgydd arweiniol yn ymateb i newidiadau prawfddarllen neu unrhyw ymholiadau yn ymwneud â chywirdeb ffeithiol<br>• Bydd y CydAr yn trefnu i'r adroddiad gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi. Bydd y CydAr yn anfon yr adroddiad at AGC er mwyn trefnu i'w gyfieithu ar gyfer arolygiadau dan arweiniad AGC neu at Trosol ar gyfer arolygiadau dan arweiniad Estyn |
| 35 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad | • Bydd Estyn yn prawfddarllen yr adroddiadau yn barod i'w cyhoeddi<br>• Bydd arolygwyr arweiniol Estyn yn ymateb i unrhyw newidiadau gan Trosol<br>• Bydd AGC yn cadarnhau fersiynau Cymraeg a Saesneg adroddiadau ar gyfer arolygiadau dan arweiniad AGC ac yn eu hanfon at y CydAr |
| 40 diwrnod o ddechrau'r arolygiad | • Bydd y CydAr yn darparu copïau o'r adroddiad i'r lleoliad<br>• Bydd y CydAr yn sicrhau bod AGC wedi cadarnhau'r adroddiadau arolygu i'w cyhoeddi |

**Sylwch ar bwy y mae angen i chi anfon copi atynt yn ystod pob cam ac, yn hytrach na dweud bod yr adroddiad yn barod ar gyfer y cam nesaf, byddwch yn fwy penodol, os gwelwch yn dda. Mae hyn oherwydd nad yw'r CydAr yn gwybod yn awtomatig ar ba gam y mae'r adroddiad bob tro ac mae'n creu gwaith ychwanegol iddynt wirio hyn bob tro.**

## Jargon neu dermau technegol

Rydym yn cydnabod bod cryn dipyn o jargon cyffredin yn cael ei ddefnyddio yn y sector ac y gall fod yn anodd osgoi hyn. Dyma rywfaint o'r jargon diweddaraf a rhai awgrymiadau amgen.

| Jargon neu dermau addysg | Awgrym amgen |
|---|---|
| sgema | patrwm o ymddygiad ailadroddus yn chwarae'r plant |
| Cynllunio yn y foment | cynllunio ymatebol |
| Llwybrau a chysylltiadau trawsgwricwlaidd neu unrhyw rannau o'r cwricwlwm newydd | Cyfeiriwch at y Cwricwlwm i Gymru |
| Y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir | Cyfeiriwch at y Cwricwlwm i Gymru |

## Newidiadau pwysig

Defnyddiwch y testun canlynol mewn adroddiadau, os gwelwch yn dda. Mae'r testun hwn yn newid i'r hyn a fydd yn ymddangos yn y FfFA. Rydym wedi cytuno i ddefnyddio'r testun hwn yn y tymor byr, nes y gellir addasu'r FfFA yn barod ar gyfer mis Medi 2023.

### The Welsh active offer

**Definition of 'a service that is 'working towards providing an 'Active Offer'**

This service is working towards providing an 'Active Offer' of the Welsh language and demonstrates a significant effort to promoting the use of the Welsh language and culture.'

**Diffiniad o wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'**

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Definition of where the service does not provide an 'Active Offer'**

This service does not provide an 'Active Offer' of the Welsh language and does not demonstrate a significant effort to promoting the use of the Welsh language and culture.

**Diffiniad o wasanaeth nad yw'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'**

Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

**DIFFYG CYDYMFFURFIO/NON-COMPLIANCE**

Geiriad diwygiedig/Amended wording

***Os canfyddir maes i'w wella yn ystod yr arolygiad hwn, nad ydyw wedi cael ei ddatrys cyn y cyfarfod adborth, dylai'r arolygydd ysgrifennu:***

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae('r) (rhain/hyn) yn cael eu(i) (h)adnabod fel (meysydd/maes) i'w (g)wella, a dylai'r Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol roddi sylw (iddynt/iddo).

***Os canfyddir materion o ddiffyg cydymffurfio mwy difrifol yn ymwneud ag effaith gymedrol neu fawr sy'n arwain at ddeilliannau gwael i blant, byddwn yn cyflwyno hysbysiad gweithredu brys a dylai'r arolygydd ysgrifennu:***

Rydym wedi canfod ddiffyg cydymffurfio yn ymwneud â (dewiswch y thema berthnasol) ac wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i'r darparwr. Dylai'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â (rhain/hyn) a gwneud gwelliannau.

***Os nad oes diffyg cydymffurfo wedi'i ganfod yn ystod yr arolygiad bydd yr arolygydd yn ysgrifennu:***

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

***If there has been an area for improvement identified at this inspection, that has not been remedied before the feedback meeting, then the inspector will write:***

We notified the provider of Areas for Improvement where the setting was not compliant with the regulations. A notice was not issued, but (these/this) (are/is) identified as (an) area(s) for improvement, and the Registered Person /Responsible Individual must address (these/this). Information on all non-compliance will be included in an Action Improvement Summary which will be published on CIW's website only.

***If there has been a more serious issue of non-compliance relating to moderate or major impact and /or potential risk leading to poor outcomes for children, we will issue a priority action notice and the inspector will write:***

We identified non-compliance in relation to (choose the relevant theme) and we have issued a priority action notice to the provider. The provider must take immediate steps to address (this/these) and make improvements.

***If no non-compliance (including areas for improvement) is identified the inspector will write:***

Bydd yr arolygwyr hefyd yn cynnwys yr argymhelliad yma/Inspectors will also include the following recommendation

1. ***Mynd i'r afael â'r materion o ddiffyg cydymffurfio*** / ***Address the areas of non-compliance identified during the inspection***